Gorffennol Digidol
Digital Past - 2020

TAITH DRWY SWYDDFEYDD Y COMISIWN BRENHINOL HENEBION CYMRU (LLYFRGELL AC YSTAFELL YMCHWIL) A LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

9.15am: Dewch i Lyfrgell ac Ystafell Ymchwil y Comisiwn Brenhinol i weld detholiad diddorol o ddeunydd archifol gwreiddiol o Gofnod Henebion Cenedlaethol Cymru ac i bori yn y llyfrau ar silffoedd ein llyfrgell arbenigol. Mae gennym gofnodion ar bob agwedd ar amgylchedd adeiledig Cymru, yn cwmpasu archaeoleg, adeiladweithiau eglwysig, pensaernïaeth, archaeoleg ddiwydiannol a hanes arforol Cymru.

Bydd staff wrth law i siarad â chi am y casgliadau ac i egluro o ble maen nhw wedi dod a sut y cânt eu defnyddio. Mae'r arddangosfa'n cynnwys awyrluniau, mapiau, llyfrau nodiadau, lluniadau, paentiadau a ffotograffau yn gysylltiedig â safleoedd ledled Cymru sy'n rhoi amcan da o gynnwys ein casgliadau. Bydd cyfle hefyd i weld y tu ôl i'r llenni ar daith drwy ein storfeydd.

10am: Taith tywys a chyflwyniad i'r Llyfrgell Genedlaethol a'i chasgliadau. Bydd ymwelwyr yn dysgu mwy am hanes y Llyfrgell, yr amrywiaeth o gasgliadau a gedwir yma ac yn gweld sut yr ydym yn diogelu ein casgliadau ar gyfer y dyfodol trwy ymweld â'r storfeydd ac ardaloedd caeedig.